



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cysgod y Gaer

**Cartref Ymddeol Cysgod y Gaer
Maesafallen
Corwen
LL21 9AE**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

30 Mawrth 2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid ichi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Chysgod y Gaer

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal Oedolion heb nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ddinbych |
| Lleoedd cofrestredig | 23 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn yw'r arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth ers iddo gael ei ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n diwallu anghenion y bobl yn dda. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan grŵp staff hapus, y mae llawer ohonynt wedi gweithio yn y cartref ers blynnyddoedd lawer ac yn adnabod y bobl yn dda. Mae polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth yn helpu i sicrhau arferion diogel ac effeithiol ac mae'r staff wedi'u hyfforddi i wneud hyn. Cynhelir iechyd a llesiant y bobl trwy gynllunio gofal cynhwysfawr a chyfarfodydd wythnosol ag ymarferwyr iechyd. Gellir cymryd camau cyflym pan nodir newidiadau mewn anghenion. Mae unigrywiaeth y bobl yn cael ei pharchu, mae pawb yn cael eu trin fel unigolyn, mae eu hanghenion yn cael eu diwallu yn y ffyrdd sydd orau ganddynt. Mae prydau bwyd yn iachus a maethlon ac mae'r bobl yn canmol ansawdd a chyflwyniad y bwyd yn fawr. Mae'r bobl yn dweud eu bod yn hapus yn byw yn y cartref, mae'r staff yn dweud eu bod yn hapus yn gweithio yma a bod ymdeimlad o fodlonrwydd a chyfeillgarwch cynnes.

Mae archwiliadau rheolaidd o'r gwasanaeth yn helpu i gynnal a chadw'r adeilad ac yn sicrhau bod gwelliannau parhaus yn cael eu gwneud. Mae'r amgylchedd yn hyrwyddo llesiant pobl; mae cyfarpar yno i'w cynorthwyo gyda'u symudedd ac mae'n darparu lle sydd yn lân, yn gynnes ac yn olau. Mae buddsoddiadau diweddar yn golygu y gall y bobl bellach fwynhau lolfeydd wedi'u haddurno'n dda gyda setiau teledu sgrin fawr a cherddoriaeth sy'n hawdd ei chlywed. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn mwynhau eu hamgylchedd a'r staff gofal sy'n eu cefnogi.

Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth ynghylch y gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn yn y cartref. Maent yn dewis sut i dreulio eu diwrnod ac yn cyflawni eu harferion dyddiol. Maent yn dewis pa weithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt. Gwelsom fod y rhain yn amrywiol, gan roi cyfle i wneud ymarfer corff, bod yn greadigol gyda chrefftau, gwrandao a chwarae a defnyddio eu sgiliau, fel pobi. Mae'r bobl yn mwynhau prydau o fwydlen amrywiol sy'n cynnig opsiynau gwahanol o fwyd maethlon wedi'i goginio gartref. Mae cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth am hanes pobl, eu hoffbethau a'u cas bethau, eu hobiau a diddordebau eraill fel y gellir teilwra gofal sy'n addas iddynt. Mae'r staff yn gyfarwydd â thrigolion y cartref gan fod llawer wedi gweithio yno ers amser maith ac yn dod o'r ardal leol. Ceir cellwair cyfeillgar ac mae'r staff yn siarad yn garedig ac yn amyneddgar yn newis iaith pobl. Mae'r bobl yn hapus gyda'r staff gofal sydd yn eu cynorthwyo ac maent yn mwynhau byw yn y cartref.

Gofelir yn dda am lesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl gan staff gofal sy'n ceisio cyngor proffesiynol ac iechyd yn brydlon pan fo angen. Mae cyfarfodydd wythnosol rhwng y meddyg teulu, ymarferwyr nyrsio a rheolwyr y cartref yn helpu i gadw llesiant y bobl wrth flaen y gofal a ddarperir ac yn sicrhau bod unrhyw newidiadau'n cael eu nodi'n gyflym ac y darperir ar eu cyfer.

Mae cynlluniau personol y bobl yn cael eu hadolygu ac yn cael eu diweddarau'n rheolaidd ac mae gwybodaeth yn cael ei rhannu, felly mae'r staff yn ymwybodol bob amser o unrhyw newidiadau i anghenion y bobl. Mae gweithdrefnau rheoli heintiau effeithiol yn cadw pobl yn ddiogel yn ystod pandemig COVID-19, mae'r holl staff ac ymwelwyr yn gwisgo masgiau wyneb, mae ymwelwyr yn cael eu profi am COVID-19 cyn iddynt gael dod i mewn ac mae hylif diheintio dwylo wedi'u lleoli o amgylch y cartref; mae ymweliadau yn cael eu cynnal trwy apwyntiad yn unig.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu ac yn llofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen y polisiau sy'n amddiffyn pobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae cyfarfodydd cyson rhwng rheolwyr a'r staff yn rhoi cyfle i drafod arfer ac mae'r polisi a'r weithdrefn chwythu'r chwiban yn helpu i sicrhau bod y bobl yn ddiogel. Mae gan y gwasanaeth drefniadau ar waith i sicrhau bod unrhyw benderfyniadau sy'n cyfyngu ar ryddid unigolyn yn cael eu gwneud er lles pennaf yr unigolyn yn unig a chydag ystyriaeth lawn i'r teulu ac awdurdod diogelu Sir Ddinbych.

Mae'r llety a ddarperir yn gynnes, yn lân ac yn olau. Mae gan y bobl y dodrefn sydd eu hangen arnynt i fod yn gyfforddus a bwriedir prynu ddodrefn newydd maes o law. Mae'r darparwr yn rhagweithiol wrth nodi gwelliannau a fydd yn gwella profiad y bobl. Mae ystafelloedd cymunol wedi'u haddurno'n ddiweddar ac mae setiau teledu sgrin fawr newydd yn gwella profiad pobl o'u gwyllo; gallant ddewis ffilmiau neu raglenni yn ôl y galw. Mae cymhorthion o gwmpas y cartref yn helpu pobl i symud a gall pobl ddewis lle i dreulio eu

hamser, gydag amrywiaeth o ardaloedd cymunol a gardd ar gael iddynt. Mae'r bobl yn hapus gyda'u hamgylchoedd.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt ac sy'n well ganddynt. Gwelsom fod cynlluniau personol yn cael eu hysgrifennu gyda'r unigolyn, ei deulu ac asiantaethau proffesiynol a'u hadolygu gyda phawb dan sylw yn cael mewnbwn. Mae dogfennau gofal yn rhoi darlun o'r unigolyn fel unigolyn unigryw, mae'n rhoi gwybod i'r staff sut y bu iddo dreulio ei fywyd yn flaenorol, yr hyn sy'n bwysig iddo yn awr a'r arferion y mae'n eu ffafrio. Mae gweithgareddau bywyd bob dydd wedi cael asesiad risg unigol i helpu i gadw'r bobl yn ddiogel tra'n hyrwyddo eu hannibyniaeth a chaiff staff gofal eu defnyddio'n strategol lle mae pobl yn tueddu i ymgynnull neu symud. Darperir y gwasanaeth yn Gymraeg lle mae'n well ganddynt, gan fod staff yn siarad Cymraeg. Mae'r dogfennau ar gael yn ddwyieithog, ac mae'r arwyddion o gwmpas y cartref wedi'u hysgrifennu yn y ddwy iaith. Mae'r bobl yn gyfarwydd â'i gilydd a chyda'r staff, gyda llawer ohonynt yn hanu o'r ardal. Mae bwydlenni'n dangos bod gan bobl fwyd iachus, maethlon a dewis o brydau. Gwelsom ddogneau digonol yn cael eu gweini yn unol â dewis pobl ac roedd pobl yn mwynhau eu bwyd. Mae sylwadau gan bobl yn cynnwys "*hapus iawn*", "*staff hyfryd yma*" a "*mae'r bwyd yn dda ac wedi'i weini'n dda.*" Mae'r bobl wedi cynnal cysylltiadau cymdeithasol gyda ffrindiau a theulu trwy bandemig COVID-19 trwy ddefnyddio technoleg ddigidol a newidiadau i'r amgylchedd i ganiatáu ar gyfer ymweliadau diogel. Mae tri pod ymweld a ganiataodd ar gyfer nifer o ymwelwyr â'r cartref ar unrhyw un adeg trwy bandemig COVID-19 a gall pobl barhau i ddefnyddio'r rhain. Ar hyn o bryd, dim ond drwy apwyntiad y cynhelir ymweliadau er mwyn sicrhau bod y risg o haint yn cael ei leihau.

Mae cofnodion yn dangos bod y bobl yn cael unrhyw gyngor a chymorth iechyd sydd eu hangen arnynt pan fydd ei angen arnynt. Mae'r bobl yn cael apwyntiadau gyda nyrsys ardal a meddygon teulu, nyrsys seiciatrig cymunedol, optegwyr ac ymarferwyr deintyddol. Gwelsom fod cynlluniau gofal iechyd deintyddol ac iechyd y geg yn cael eu hadolygu'n fisol. Cynhelir cyfarfodydd rhithwir wythnosol gyda'r meddyg teulu ac ymarferwyr nyrsio i drafod iechyd a llesiant pobl gan sicrhau bod y bobl yn cael cyngor a chymorth prydlon. Gofelir am iechyd emosiynol a meddyliol y bobl; cânt eu parchu fel unigolion, darperir ar gyfer dymuniadau yn greadigol a chyda pharch at unigrywiaeth pobl. Gwelsom sut mae'r bobl yn cael pleser o anwesu oen, cofleidio doli babi, canu'r piano.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylendid i leihau risgiau heintio. Mae pob ymwelydd yn cael ei brofi am COVID-19 wrth gyrraedd a chaiff y canlyniadau eu cofnodi. Mae tymereddau yn cael eu cymryd. Mae gorsafoedd glanweithdra, masgiau a ffedogau ar bob coridor a thu allan i ystafelloedd gwely ledled y cartref. Mae cyfarwyddiadau i'r staff ac ymwelwyr yn cael eu harddangos yn amlwg, mae staff yn gwisgo masgiau wyneb.

Yr Amgylchedd

Mae darparwyr y gwasanaeth yn sicrhau bod gofal a chymorth y bobl yn cael eu darparu mewn amgylchedd sydd â chyfleusterau ac offer sy'n eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Gwelsom fod yr ystafelloedd wedi'u haddurno'n rhesymol, yn lân ac yn olau. Mae rhai ystafelloedd wedi'u hailaddurno'n ddiweddar, mae'r loffeydd wedi'u diweddarau ac mae setiau teledu sgrin fawr newydd wedi'u prynu lle gall y bobl gyrchu ffilmiau yn ôl y galw a chael cyfarfodydd rhithwir gyda'u perthnasau. Mae technoleg arall yn darparu cerddoriaeth ar draws yr ardaloedd cymunol. Prynwyd bleinds newydd ac mae cynlluniau ar gyfer gwaith pellach; mae bath newydd ar ffurf Jacuzzi wedi'i archebu a fydd yn darparu ystafell ymolchi ychwanegol, mae bwrdd bwyta newydd a chadeiriau wedi cael eu harchebu hefyd. Mae yna gynlluniau i adnewyddu dodrefn a décor yr ystafelloedd gwely. Mae yna gyfleusterau ail-alluogi; cegin gydag arwynebau sy'n codi a gostwng fel y gall pobl ymarfer eu sgiliau bywyd bob dydd. Mae gan y bobl gadeiriau sy'n mynd yn ôl ac mae gan rai welyau sy'n eu troi i fod mor gyfforddus â phosibl. Mae system dolen yn helpu pobl â nam ar eu clyw, mae canllawiau cydio a chymhorthion symudedd yn helpu pobl i symud o gwmpas y cartref.

Mae'r darparwr gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Gwelsom asesiadau risg generig ar gyfer y cartref ac asesiadau risg unigol ar gyfer amrywiol weithgareddau a gyflawnir gan bob unigolyn. Caiff achosion o gwmpo eu monitro a'u gwerthuso i nodi themâu a gwneud rheoli risg yn fwy effeithiol. Mae cofnodion yn dangos bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cwblhau ar gyfer dŵr, offer tân, offer trydanol a gosodiadau trydan. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant i wella diogelwch fel diogelwch tân, cymorth cyntaf, hylendid bwyd, iechyd a diogelwch a symud a thrin. Mae gan y cartref weithiwr cynnal a chadw sy'n ymweld yn wythnosol a gwelsom fod cofnod yn cael ei gadw o 'dasgau i'w gwneud' a'r cynnydd a wnaed. Mae amserlenni glanhau yn benodol a manwl iawn gan wneud yn siŵr bod pob man a thu ôl i'r holl offer yn cael eu glanhau. Mae offer yn cael ei storio i ffwrdd o fannau a ddefnyddir yn aml gan bobl, sy'n gadael coridorau'n rhydd o rwystrau.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau llywodraethu ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda. Gwelsom fod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn aml ac yn cynhyrchu adroddiad o'r ymweliadau hyn. Cynhaliwyd yr ymweliad diwethaf ym mis Mawrth a daeth i ben gyda chynlluniau gweithredu a dyddiadau targed. Mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r amgylchedd. Mae cynnydd ar gamau gweithredu blaenorol yn cael ei gofnodi. Mae'r archwiliad yn ystyried materion allweddol megis llesiant preswylwyr, staffio, yr amgylchedd, unrhyw faterion diogelu neu bryderon a godwyd. Gwelsom yr adolygiad ansawdd gofal a gwblhawyd ym mis Ionawr. Rhaid i bob aelod o staff ddarllen ystod o bolisiau a gweithdrefnau i gadw arferion yn ddiogel, a chedwir set o'r rhain lle gall y staff gael eu cyrchu'n hawdd. Mae'r datganiad o ddiben wedi'i ddiweddarau'n ddiweddar er mwyn i bobl gael darlun cywir o'r hyn a ddarperir. Gall y bobl a'r staff siarad â'r dirprwy reolwr yn ddyddiol gan ei bod yn bresennol y rhan fwyaf o'r wythnos, yn weladwy i bawb ac yn cael pleser yn siarad â phobl a staff o'i chwmpas. Gwnaethom siarad â staff a gadarnhaodd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda, eu bod yn caru eu gwaith a'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw.

Mae'r bobl yn cael eu cynorthwyo gan wasanaeth sy'n darparu nifer priodol o staff sy'n ddigon cymwys ac sydd â'r wybodaeth i ddarparu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen. Mae cofnodion staff yn dangos bod gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith a darperir ystod dda o hyfforddiant mewn pynciau perthnasol i'r staff; roedd y dirprwy reolwr yn cael hyfforddiant mewn galluedd meddyliol ar ddiwrnod ein harolygiad. Mae systemau ar waith i sicrhau bod rhai staff yn derbyn yr un wybodaeth ar yr un pryd. Mae gan y staff fynediad i grŵp ar-lein lle mae gwybodaeth yn cael ei bwydo, maent hefyd yn derbyn gwybodaeth am anghenion newidiol trwy weithdrefnau trosglwyddo a chofnod cyfathrebu. Mae'r staff yn cael cefnogaeth gan eu rheolwr, gyda chyfleoedd rheolaidd i gyfarfod a thrafod arferion a chynnal gwerthusiad blynyddol o'u hanghenion datblygiadol. Gwelsom fod digon o staff ar ddyletswydd i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref, i goginio, i lanhau, i gynnal a chadw'r adeilad ac i gynnal y golchdy, ac mae rotâu staff yn dangos bod hyn yn arferol. Mae rhai o'r staff wedi gweithio yn y cartref ers blynyddoedd lawer ac mae ymdeimlad da o gyfeillgarwch; Mae'r staff yn hapus yn eu gwaith ac yn mwynhau'r hyn a wnânt.

Mae darparwr y gwasanaeth yn goruchwylio trefniadau ariannol a buddsoddiad yn y gwasanaeth fel ei fod yn gynaliadwy yn ariannol. Mae'r cartref yn lân ac yn gyfforddus gyda'r rhan fwyaf o'r décor a'r dodrefn yn addas i'r bobl yn y cartref. Mae gwaith ailaddurno, paneli solar, podiau ymweld yn yr ardd a setiau teledu sgrin fawr a brynwyd wedi gwella'r amgylchedd. Bydd llesiant cyffredinol y bobl a gwelliannau pellach sydd wedi'u cynllunio yn gwella profiad pobl yn y cartref yn fawr. Mae hyn yn cynnwys ystafell ymolchi arall gyda bath arbenigol, gofod celf a chreffft ychwanegol a dodrefn ystafell wely newydd a fydd oll o fudd i'r bobl sy'n byw yma.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

| Statws | Ystyr pob un |
|-----------------------|--|
| Newydd | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| Adolygwyd | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| Ni chyflawnwyd | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| Cyflawnwyd | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|--------------|---|--------------|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|--------------|---|--------------|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Dyddiad cyhoeddi

5 Mai 2022